

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

**Adroddiad ar Fil Addysg Uwch
(Cymru)**

Hydref 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Cynulliad Cenedlaethol Cymru yw'r corff sy'n cael ei ethol yn ddemocrataidd i gynrychioli buddiannau Cymru a'i phobl, i ddeddfu ar gyfer Cymru ac i ddwyn Llywodraeth Cymru i gyfrif.

Gallwch weld copi electronig o'r adroddiad hwn ar wefan y Cynulliad Cenedlaethol:
www.senedd.cynulliadcymru.org

Gellir cael rhagor o gopiau o'r ddogfen hon mewn ffurfiau hygyrch, yn cynnwys Braille, print bras, fersiwn sain a chopiau caled gan:

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol
Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Bae Caerdydd
CF99 1NA

Ffôn: 029 2089 8008/8019
Ffacs: 029 2089 8021
E-bost: PwyllgorMCD@cymru.gov.uk

© Hawlfraint Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru 2014

Ceir atgynhyrchu testun y ddogfen hon am ddim mewn unrhyw fformat neu gyfrwng cyn belled ag y caiff ei atgynhyrchu'n gywir ac na chaiff ei ddefnyddio mewn cyd-destun camarweiniol na difriol. Rhaid cydnabod mai Comisiwn Cynulliad Cenedlaethol Cymru sy'n berchen ar hawlfraint y deunydd a rhaid nodi teitl y ddogfen.

Cynulliad Cenedlaethol Cymru
Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol
a Deddfwriaethol

**Adroddiad ar Fil Addysg Uwch
(Cymru)**

Hydref 2014



Cynulliad
Cenedlaethol
Cymru

National
Assembly for
Wales

Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol

Sefydlwyd y Pwyllgor hwn ar 15 Mehefin 2011, a'i gylch gwaith yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol fel y'u nodir yn Rheolau Sefydlog 21.2 a 21.3, ac i ystyried unrhyw faterion eraill yn ymwneud â deddfwriaeth a gyfeirir ato gan y Pwyllgor Busnes.

Aelodau cyfredol y Pwyllgor



David Melding (Cadeirydd)

Dirprwy Lywydd
Ceidwadwyr Cymreig
Canol De Cymru



Suzy Davies

Ceidwadwyr Cymreig
Gorllewin De Cymru



Alun Davies

Llafur Cymru
Blaenau Gwent



Eluned Parrott

Democratiaid Rhyddfrydol Cymru
Canol De Cymru



Simon Thomas

Plaid Cymru
Canolbarth a Gorllewin Cymru

Roedd yr Aelod canlynol hefyd yn aelod o'r Pwyllgor yn ystod yr ymchwiliad hwn:



Julie James

Llafur Cymru
Gorllewin Abertawe

Cynnwys

Crynodeb o'r Argymhellion.....	5
1. Cyflwyniad	7
Cylch gwaith y Pwyllgor	7
Cyflwyno ac ystyried y Bil.....	7
2. Cefndir.....	9
Diben y Bil	9
3. Cymhwysedd Deddfwriaethol	11
Cefndir	11
Tystiolaeth	11
Ein barn ni.....	11
4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth - sylwadau cyffredinol.....	12
Tystiolaeth	12
Ein barn ni.....	14
5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth - sylwadau ar bwerau penodol.....	18
Rhan 2: Cynlluniau ffioedd a mynediad	18
Adran 2 - Cynlluniau ffioedd a mynediad	18
Ein barn ni.....	19
Adran 3 - Dynodi darparwyr addysg uwch eraill	19
Ein barn ni.....	20
Adran 4 - Y cyfnod y mae'r cynllun yn berthnasol iddo	20
Ein barn ni.....	22
Adran 5 - Uchafswm y ffioedd	22
Ein barn ni.....	23
Adran 6 - Hyrwyddo cyfle cyfartal ac addysg uwch	23
Ein barn ni.....	25
Adran 7 - Cymeradwyo'r cynlluniau ffioedd a mynediad.....	25
Ein barn ni.....	26
Adran 9 - Amrywio'r cynllun cymeradwy	26

Ein barn ni.....	27
Rhan 4: Materion ariannol sefydliadau rheoleiddiedig.....	27
Adran 28 - Gweithdrefn ar gyfer cymeradwyo'r cod.....	28
Ein barn ni.....	28
Rhan 8: Cyffredinol.....	29
Adran 56 - Cychwyn.....	29
Atodiad 1 - Llythyr gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 2 Gorffennaf 2014.....	30
Atodiad 2 - Llythyr gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, 23 Gorffennaf 2014.....	47

Crynodeb o'r Argymhellion

Argymhelliad 1. rydym yn argymell bod y Gweinidog yn adolygu'r defnydd o bwerau disgresiwn i wneud rheoliadau gyda'r nod o ddiwygio'r Bil i sicrhau'r canlynol:

- ei fod yn rhoi eglurhad i randdeiliaid o sut y bydd y system reoleiddio newydd yn gweithio; a
- bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau pan fydd hyn yn sicrhau'r system reoleiddio mwyaf effeithiol ac effeithlon bosibl. (Tudalen 15)

Argymhelliad 2. oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer gweithredu'r Bil, rydym yn argymell bod Llywodraeth Cymru yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r rhanddeiliaid ac, fel rhan o'r broses honno, yn darparu rhaglen weithredu fanwl ar gyfer y Bil cyn gynted â phosibl, gan roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i'r rhaglen hon cyn gynted â phosibl. (Tudalen 17)

Argymhelliad 3. rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan adran 2(4) yn y lle cyntaf. (Tudalen 19)

Argymhelliad 4. rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan adran 3(4). (Tudalen 20)

Argymhelliad 5. rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i Adran 4 o'r Bil: (Tudalen 22)

Argymhelliad 6. rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan Adrannau 5(2), 5(3) a 5(5) yn y lle cyntaf. (Tudalen 23)

Argymhelliad 7. rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan adran 6(1). (Tudalen 25)

Argymhelliad 8. rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan adran 7(3). (Tudalen 26)

Argymhelliad 9. rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog ystyried cyflwyno gwelliant i Adran 9(2) y Bil i gadarnhau ei fwriad. (Tudalen 27)

Argymhelliad 10. rydym yn argymell y caiff un o weithdrefnau'r Cynulliad ei defnyddio wrth wneud cod o dan Adran 28 o'r Bil, yn debyg i'r hyn a geir yn Adran 13 o Fil Trais ar Sail Rhywedd, Cam-drin Domestig a Thrais Rhywiol (Cymru) Llywodraeth Cymru (fel y'i cyflwynwyd). (Tudalen 29)

Argymhelliad 11. rydym yn argymell y defnyddir y weithdrefn negyddol gyda gorchmynion a wneir yn unol ag Adran 56(3)(b). (Tudalen 29)

1. Cyflwyniad

Cylch gwaith y Pwyllgor

1. Cylch gwaith y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol ("y Pwyllgor") yw cyflawni swyddogaethau'r pwyllgor cyfrifol a nodir yn Rheol Sefydlog 21, ac ystyried unrhyw fater cyfansoddiadol neu lywodraethol arall sydd o fewn cymhwysedd y Cynulliad neu Weinidogion Cymru, neu sy'n gysylltiedig â hwy.
2. Yn unol â hyn, bydd y Pwyllgor yn ystyried pwysigrwydd gwleidyddol a chyfreithiol yr holl offerynnau statudol neu offerynnau statudol drafft a wneir gan Weinidogion Cymru, yn ogystal ag agweddau technegol ar yr offerynnau hynny. Bydd y Pwyllgor yn ystyried a ddylai'r Cynulliad roi sylw arbennig i'r offerynnau'n unol ag ystod o seiliau a restrir yn Rheol Sefydlog 21, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.
3. Bydd y Pwyllgor hefyd yn ystyried pa mor briodol yw darpariaethau Biliau'r Cynulliad a Biliau Senedd y DU sy'n rhoi pwerau i Weinidogion Cymru, Prif Weinidog Cymru neu'r Cwnsler Cyffredinol wneud is-ddeddfwriaeth, ac yn cyflwyno adroddiadau ar hynny.

Cyflwyno ac ystyried y Bil

4. Ar 19 Mai 2014, cyflwynodd Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau ("y Gweinidog"), y Bil Addysg Uwch (Cymru) ("y Bil") a'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd ag ef.¹
5. Ar 20 Mai 2014, ysgrifennodd y Gweinidog at Ann Jones AC, Cadeirydd y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg (copiwyd y llythyr i'r Pwyllgor hwn) gan ddarparu Tabl Tarddiadau a datganiad yn amlinellu'r bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan y Bil.²
6. Cyfeiriodd Pwyllgor Busnes y Cynulliad Cenedlaethol y Bil at y Pwyllgor Plant, Pobl Ifanc ac Addysg i'w ystyried, gan bennu 3 Hydref 2014 yn ddyddiad cau ar gyfer cyflwyno adroddiad ar ei egwyddorion cyffredinol.

¹ Llywodraeth Cymru, y Bil Addysg Uwch (Cymru) - Memorandwm Esboniadol yn ymgorffori'r Asesiad Effaith Rheoleiddiol a'r Nodiadau Esboniadol, Mai 2014

² Llywodraeth Cymru, y Bil Addysg Uwch (Cymru) - Bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan y Bil, Mai 2014

7. Cawsom ohebiaeth am y Bil gan Addysg Uwch Cymru³ ar 11 Mehefin 2014.⁴

8. Trafodwyd y Bil ar 16 Mehefin 2014. Yn dilyn ein cyfarfod, ysgrifennodd y Gweinidog atom ar 2 Gorffennaf 2014⁵ a 23 Gorffennaf 2014,⁶ yn ymateb i gwestiynau a gododd yn y cyfarfod hwnnw. Atodir llythyrau'r Gweinidog yn Atodiad 1 ac Atodiad 2 yn y drefn honno.

³ Mae gwybodaeth am Addysg Uwch Cymru ar gael yn: www.hew.ac.uk/

⁴Ar gael yma: www.senedd.cynulliadcymru.org/documents/s23544/PAC4-03-14%20ptn1.pdf

⁵ Llythyr gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y *Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Addysg Uwch (Cymru)*, 2 Gorffennaf 2014

⁶ Llythyr gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, y *Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Addysg Uwch (Cymru)*, 23 Gorffennaf 2014

2. Cefndir

Diben y Bil

9. Mae'r Memorandwm Esboniadol sy'n cyd-fynd â'r Bil yn nodi mai nod y Bil yw:

“gwneud darpariaeth ar gyfer fframwaith rheoleiddio diwygiedig ar gyfer addysg uwch yng Nghymru. Bydd yn cyflawni hyn drwy roi'r swyddogaethau angenrheidiol i Gyngor Cyllido Addysg Uwch Cymru (CCAUC), er mwyn iddo allu sicrhau ansawdd darpariaeth addysg uwch; gorfodi rheolaethau ffioedd dysgu a'r gofynion o ran cynlluniau ffioedd; a sefydlu fframwaith ar gyfer trefnu a rheoli materion ariannol darparwyr addysg uwch yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu dynodi'n awtomatig at ddibenion cymorth i fyfyrwyr.”⁷

10. Nodir prif amcanion polisi'r Bil fel a ganlyn:

- “(a) sicrhau trefn reoleiddio gadarn a chymesur ar gyfer sefydliadau yng Nghymru y mae eu cyrsiau'n cael eu cefnogi gan grantiau a benthyciadau Llywodraeth Cymru;
- (b) diogelu'r cyfraniad at les y cyhoedd sy'n deillio o gymhorthdal ariannol Llywodraeth Cymru ar gyfer addysg uwch;
- (c) cynnal ffocws cryf ar fynediad teg at addysg uwch; a
- (d) gwarchod a diogelu annibyniaeth a rhyddid academiaidd prifysgolion.”⁸

11. Ychwanega'r Memorandwm Esboniadol:

“Mae Llywodraeth Cymru wedi sicrhau ei bod yn datblygu dull gweithredu sy'n:

- adlewyrchu'r newidiadau diweddar i'r trefniadau ar gyfer cymorth i fyfyrwyr a chyllido addysg uwch a'r newidiadau parhaus ym maes addysg uwch;
- cymryd i ystyriaeth yr adborth a geir o ymgynghoriadau;

⁷ Memorandwm Esboniadol, paragraff 1

⁸ Memorandwm Esboniadol, paragraff 4

- yn gymesur wrth ei gymhwyso ac yn caniatáu i rôl CCAUC fel yr awdurdod perthnasol ar gyfer mynediad teg yng Nghymru barhau gan roi swyddogaethau CCAUC ar sail statudol ddiwygiedig.”⁹

⁹ Memorandwm Esboniadol, paragraff 6

3. Cymhwysedd Deddfwriaethol

Cefndir

12. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi bod gan y Cynulliad Cenedlaethol y cymhwysedd i wneud darpariaeth yn y Bil yn rhinwedd paragraff 5 (Addysg a Hyfforddiant) Rhan 1 o Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

Tystiolaeth

13. Pan holwyd y Gweinidog ynghylch unrhyw drafodaethau a gafodd gyda Llywodraeth y DU, dywedodd:

“I am satisfied that the Bill does fall within the competence of the Assembly, and, to my knowledge, no-one has disputed that.”¹⁰

Ein barn ni

14. Nodwn nad oes unrhyw faterion wedi'u codi gyda'r Gweinidog ynghylch gallu'r Cynulliad Cenedlaethol i wneud y ddeddfwriaeth hon o dan Atodlen 7 i *Ddeddf Llywodraeth Cymru 2006*.

¹⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 5]*, 16 Mehefin 2014

4. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth - sylwadau cyffredinol

Tystiolaeth

15. Teimla Addysg Uwch Cymru:

“The Bill leaves many of the proposals of the Technical consultation to be dealt with through subsequent subordinate legislation, which makes it difficult to fully assess the impact of the Bill and consequent changes particularly in terms of their impact for key issues such as universities’ charity status and classification for purposes of national accounting.”^{11 12}

16. Roedd yn poeni am y defnydd o'r weithdrefn negyddol ar gyfer is-ddeddfwriaeth yn y mwyafrif llethol o achosion¹³, ac ychwanegodd:

“The extensive use of regulations also raises issues about the commencement and feasibility of implementation of the Bill, intended to apply for 2016/17. It is clear that the Bill cannot be implemented without the prior exercise of many of these powers.”¹⁴

17. Eglurodd y Gweinidog pam ei fod wedi darparu dogfen sy'n rhoi manylion am y bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan y Bil. Dywedodd:

“Members will be aware that the First Minister did make a commitment that where a Government Bill contained powers for Welsh Ministers to make subordinate legislation, and where it was not appropriate or possible for the draft subordinate legislation to be made available during the Bill process, a policy intent statement would be submitted. It is simply there to provide greater clarity for Members.”¹⁵

¹¹ Addysg Uwch Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

¹² Cyflwynodd Llywodraeth Cymru bapur ymgynghori, *Bil Addysg Uwch (Cymru): Ymgynghoriad technegol*, ym mis Mai 2013, yn gofyn am sylwadau ar sut y dylai'r system reoleiddio ddiwygiedig weithredu o fewn y fframwaith arfaethedig.

¹³ Addysg Uwch Cymru, tystiolaeth ysgrifenedig

¹⁴ *ibid*

¹⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 7]*, 16 Mehefin 2014

18. Dywedodd y Gweinidog ei fod yn fodlon ar y cydbwysedd rhwng yr hyn sydd yn y Bil a'r hyn a adewir i'r rheoliadau,¹⁶ gan ychwanegu nad yw'n Fil fframwaith.¹⁷

19. Dywedodd y Gweinidog hefyd:

“This is a technical Bill, and I think that that is reflected, really, in terms of the number of powers that are subject to the negative procedure ... as is established, and has been established, in previous legislation, this is all a question of whether those powers are narrow and technical, or whether they are broader. Of course, we rely then on the Counsel General’s advice to make sure that we steer a correct path through that consideration.”¹⁸

20. Holwyd y Gweinidog ynghylch y pwerau disgresiwn a roddir i Weinidogion Cymru i wneud rhai rheoliadau, yn hytrach na gofyniad gorfodol absoliwt h.y. y defnydd o “caiff” wrth ddrafftio'r Bil yn hytrach na “rhaid” o ran gwneud y rheoliadau. Rhoddodd y Gweinidog grynodeb o'i safbwynt mewn llythyr atom ar 2 Gorffennaf 2014, gan nodi:

“A duty to make regulations is only appropriate where the regulations in question and the duty are very limited in scope. I also start from the presumption that Government should regulate only to give effect to the overall legislative scheme or otherwise when the need for such regulation is established on some other grounds. I acknowledge that in a number of cases the system established under the Bill will not be able to perform effectively without regulations in place ... However, other draft provisions are more permissive in nature in order to permit regulations to be made where they might assist the operation of the new regime or where circumstance or experience demonstrate a need for regulation in those areas.”

21. Rhoddodd y Gweinidog hefyd ddadansoddiad o'r defnydd o “caiff” a “rhaid” yn y Bil mewn atodiad i'w lythyr ar 2 Gorffennaf 2014.

¹⁶ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraffau 9 a 10]*, 16 Mehefin 2014

¹⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 10]*, 16 Mehefin 2014

¹⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 18]*, 16 Mehefin 2014

22. Mewn llythyr dilynol ar 23 Gorffennaf 2014, nododd y Gweinidog sut y gallai agweddau ar y system reoleiddio newydd a gyflwynir gan y Bil weithredu ar sail canllawiau statudol. I gloi, dywedodd y Gweinidog:

“It is my view that the new regulatory system could operate adequately on the basis of guidance alone. However, it may become necessary for regulations to be made to bring clarity to certain processes or to respond to changes to the higher education sector in Wales, the nature of HEFCW’s operations or the manner of delivery of courses.”

23. O ran yr amserlen ar gyfer gwneud y rheoliadau, dywedodd y Gweinidog:

“It is a tight timescale, but it is doable. We do intend to take a phased approach—we do want a smooth transition from the existing regulatory system ... I would hope to have the regulations available in draft form for the Assembly to scrutinise at Stage 2, and the intention is also to consult stakeholders on the draft regulations at the appropriate time. So, that would lead us into a timescale where we are still confident that we can hit implementation, in full, for the 2016-17 academic year.”¹⁹

Ein barn ni

24. Rydym yn derbyn nad yw'r Bil hwn yn gymaint o fframwaith o ran natur â rhai eraill o Filiau Llywodraeth Cymru yr ydym wedi craffu arnynt. Er hynny, credwn fod diffyg eglurder mewn rhai adrannau. O ganlyniad i hyn, rydym o'r farn bod lle i wella er mwyn sicrhau bod y rheini yr effeithir arnynt gan y ddeddfwriaeth yn cael darlun cliriach a llawnach o sut y bydd yn effeithio arnynt os bydd y Bil yn cael Cydsyniad Brenhinol.

25. Rydym yn cydnabod y bydd Llywodraeth Cymru yn defnyddio canllawiau'r Cwnsler Cyffredinol o ran dewis y weithdrefn gadarnhaol neu'r weithdrefn negyddol wrth ddrafftio deddfwriaeth. Er eu bod yn ddefnyddiol iawn, byddwn yn gwneud ein penderfyniad ein hunain mewn perthynas â darpariaeth benodol yn seiliedig ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys ein dadansoddiad ein hunain o'r Bil a chyddestun pob darpariaeth.

¹⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 21]*, 16 Mehefin 2014

26. Rydym wedi nodi barn y Gweinidog ar y defnydd o bwerau disgresiwn a phwerau gorfodol i wneud rheoliadau. Nodwn yr eglurhad a gafwyd yn llythyr y Gweinidog ar 2 Gorffennaf 2014.

27. Fel egwyddor gyffredinol, nid ydym yn cytuno â barn y Gweinidog, sef:

“A duty to make regulations is only appropriate where the regulations in question and the duty are very limited in scope.”

28. Ymddengys yn ddull arbennig o anhyblyg. Gallai dyletswydd i wneud rheoliadau ddibynnu ar amrywiaeth o ffactorau, gan gynnwys, er enghraifft, cynnwys y ddarpariaeth sy'n cyflwyno'r pŵer a'r angen am sicrwydd ymhlith rhanddeiliaid.

29. Ar gyfer y Bil hwn, credwn y dylai Llywodraeth Cymru nodi pa ddarpariaethau sy'n hanfodol er mwyn gwneud i'r system reoleiddio newydd weithio'n effeithlon ac, yn dibynnu ar yr amgylchiadau, naill ai eu cynnwys yn y Bil neu drwy reoliadau y mae'n ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i'w cyflwyno. Mae hyn yn hollbwysig, yn arbennig pan fo Llywodraeth Cymru ei hun yn cydnabod, ar gyfer y naill achos â'r llall, y byddai'n arwain at system sy'n fwy effeithlon ac effeithiol. Gellid darparu materion eraill nad ydynt yn hanfodol yn hawdd ar ffurf pŵer i wneud rheoliad disgresiwn ar wahân. Yn ein barn ni, mae hyn yn cynrychioli dull gweithredu synhwyrol ac effeithiol o ran deddfu.

Argymhelliad 1: rydym yn argymhell bod y Gweinidog yn adolygu'r defnydd o bwerau disgresiwn i wneud rheoliadau gyda'r nod o ddiwygio'r Bil i sicrhau'r canlynol:

- ei fod yn rhoi eglurhad i rhanddeiliaid o sut y bydd y system reoleiddio newydd yn gweithio; a
- bod dyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau pan fydd hyn yn sicrhau'r system reoleiddio mwyaf effeithiol ac effeithlon bosibl.

30. Mae Pennod 5 o'n hadroddiad yn nodi ein sylwadau ar y gweithdrefnau sydd i'w defnyddio gyda'r pwerau i wneud rheoliadau. Pan fyddwn yn argymhell y weithdrefn gadarnhaol, byddem yn disgwyl i'r Bil ei gwneud yn ddyletswydd ar Weinidogion Cymru i wneud rheoliadau o'r fath.

31. Gwnaethom dynnu sylw at ddisgrifiad y Gweinidog o'r Bil fel un technegol (gweler paragraff 19 uchod) yn ystod ei sesiwn dystiolaeth.²⁰

32. Mae perygl, drwy gyfeirio at Fil fel un technegol, y gellid dehongli yr awgrymir ei fod yn cynnwys manylion nad ydynt yn arwyddocaol iawn nac yn bwysig iawn, ac felly, na fyddai llawer o bwynt meddwl o ddifrif am y Bil, a'i ddadansoddi.

33. Yn ein barn ni, dylid felly osgoi cyfeirio at Fil fel un technegol. Bydd unrhyw Fil, p'un a yw'n cynnwys polisi arwyddocaol, yn fwy gweinyddol ei natur neu'n cynnwys manylion yn bennaf, yn cael effaith ar gyrff a/neu unigolion (er y bydd hynny mewn ffyrdd gwahanol) ac o bosibl, yn gosod rhwymedigaeth gyfreithiol arnynt. Mae'n ddyletswydd arnom i sicrhau ein bod yn craffu'n drwyadl, waeth beth yw cynnwys y Bil a natur ei ddarpariaethau. O ganlyniad i'r gwaith craffu a wneir gennym, byddwn yn ffurfio ein barn ein hunain ynghylch natur y Bil a pha fath o Fil ydyw, ac a ydym o'r farn bod angen gwella (os o gwbl) y ffordd y caiff ei ddrafftio.

34. Mae'r wybodaeth a ddarparwyd gan y Gweinidog am fwriad polisi'r rheoliadau'n ddefnyddiol iawn, yn arbennig wrth benderfynu pa weithdrefn a ddylai fod yn gymwys i'r rheoliadau, ac rydym yn cymeradwyo'r Gweinidog am wneud hynny.

35. Fodd bynnag, yn gyffredinol, rydym o'r farn na ddylai'r wybodaeth a roddir i'r Cynulliad ymlaen llaw am yr hyn a fydd yn ymddangos yn y rheoliadau gael ei defnyddio fel dadl i leihau faint o wybodaeth a geir yn y Bil. Dylai hynny bob amser fod yn seiliedig ar egwyddorion cadarn o wneud cyfraith dda, fel y gall y rheini a fydd yn darllen y ddeddfwriaeth fel y'i deddfir nodi diben y Bil yn glir, a bod y rheini yr effeithir arnynt gan y gyfraith arfaethedig yn cael cymaint o eglurhad â phosibl. Credwn hefyd fod dull o'r fath yn fwy tebygol o sicrhau nodau polisi Llywodraeth Cymru yn y ffordd fwyaf effeithlon bosibl.

36. Nodwn yr amserlen ar gyfer gweithredu'r Bil a'r rheoliadau cysylltiedig a gyflwynwyd gan y Gweinidog a'r pryderon a fynegwyd gan Addysg Uwch Cymru.

37. O ystyried bod Cydsyniad Brenhinol wedi'i drefnu ar gyfer mis Mawrth 2015, yn amodol ar basio'r Bil yn llwyddiannus yn y Cynulliad,

²⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, Cofnod y Trafodion [paragraff 47], 16 Mehefin 2014

credwn fod yr amserlen weithredu yn dynn iawn. Rydym hefyd yn poeni y bydd hyn yn rhoi llawer o bwysau ar CCAUC a rhanddeiliaid eraill y mae'r ddeddfwriaeth yn effeithio arnynt. Mae hyn yn tynnu sylw at yr angen am eglurder a sicrwydd gwell ynghylch darpariaethau'r Bil (fel y nodwn yn argymhelliad 1) i sicrhau y gall rhanddeiliaid baratoi'n effeithiol ac mewn digon o amser ar gyfer ei weithredu.

Argymhelliad 2: oherwydd yr amserlen dynn ar gyfer gweithredu'r Bil, rydym yn argymhell bod Llywodraeth Cymru yn cadw mewn cysylltiad rheolaidd â'r rhanddeiliaid ac, fel rhan o'r broses honno, yn darparu rhaglen weithredu fanwl ar gyfer y Bil cyn gynted â phosibl, gan roi gwybod iddynt am unrhyw newidiadau i'r rhaglen hon cyn gynted â phosibl.

5. Pwerau i wneud is-ddeddfwriaeth - sylwadau ar bwerau penodol

38. Mae'r Bil yn cynnwys wyth rhan, 57 o adrannau ac un atodlen.

39. Mae'r Bil yn cynnwys 27 o bwerau i wneud is-ddeddfwriaeth. Cânt eu crynhoi yn Rhan 5 o'r Memorandwm Esboniadol. Mae rhagor o wybodaeth am y darpariaethau ar gael yn natganiad Llywodraeth Cymru am y bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau²¹ a llythyr y Gweinidog ar 2 Gorffennaf 2014.²²

40. Rydym wedi cyfyngu ar ein sylwadau i'r materion hynny sydd wedi achosi'r pryder mwyaf.

Rhan 2: Cynlluniau ffioedd a mynediad

41. Mae Rhan 2 o'r Bil (adrannau 2-16) yn gwneud darpariaeth ar gyfer cynlluniau ffioedd a mynediad i ddisodli'r cynlluniau o dan *Ddeddf Addysg Uwch 2004*. Diben y cynlluniau yw hyrwyddo cyfle cyfartal ac addysg uwch. Bydd gan y sefydliadau sydd â chynlluniau cymeradwy fwy o hyblygrwydd o ran pennu ffioedd. Gall sefydliadau nad oes ganddynt gynlluniau ffioedd a mynediad wneud cais i ddyrannu cyrsiau unigol at ddiben darparu cymorth statudol i fyfyrwyr.

Adran 2 - Cynlluniau ffioedd a mynediad

42. Mae Adran 2 yn caniatáu i gorff llywodraethu math penodol o sefydliad wneud cais i CCAUC gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad. Mae'n rhaid i'r sefydliad fod yn sefydliad yng Nghymru sy'n darparu addysg uwch ac sy'n elusen. Mae Adran 2(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud darpariaeth, drwy reoliadau, ynghylch gwneud ceisiadau i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl y bydd CCAUC yn gofyn am wybodaeth neu ddogfennaeth benodol gan sefydliadau sy'n gwneud cais iddo gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad a bydd y rheoliadau'n amlinellu'r wybodaeth hon.²³

²¹ Llywodraeth Cymru, *y Bil Addysg Uwch (Cymru) - Bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan y Bil*, Mai 2014

²² Llythyr gan Huw Lewis AC, y Gweinidog Addysg a Sgiliau, *y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol - gwaith craffu Cyfnod 1 ar y Bil Addysg Uwch (Cymru)*, 2 Gorffennaf 2014

²³ Datganiad y bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau, tudalen 5

43. Byddai'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gan fod "elfen dechnegol a gweinyddol" iddynt a "gall y rhain newid yn rheolaidd."²⁴

44. Dywedodd y Gweinidog:

"The regulations would only deal with matters of technical detail relating to applications for approval of a fee and access plan. They would not prevent or inhibit the operation of the new regulatory system, which is what we are outlining in the Bill."²⁵

Ein barn ni

45. Nodwn fod Llywodraeth Cymru yn disgwyl i CCAUC ofyn am wybodaeth benodol i gyd-fynd â chais. Rydym yn ystyried bod y wybodaeth hon yn ddigon pwysig i broses y cynllun ffioedd a mynediad i'w gwneud yn ofynnol cael gweithdrefn sy'n fwy cadarn ar gyfer gwneud y rheoliadau yn y lle cyntaf.

Argymhelliad 3: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan adran 2(4) yn y lle cyntaf.

Adran 3 – Dynodi darparwyr addysg uwch eraill

46. Mae Adran 3 yn galluogi Gweinidogion Cymru i ddynodi darparwr elusennol addysg uwch yng Nghymru fel 'sefydliad' at ddibenion y Bil ac unrhyw is-ddeddfwriaeth a wneir yn sgil y Bil. Fel arfer, nid ystyrir darparwr o'r fath yn 'sefydliad' o dan y Bil. Gellir gwneud dynodiad ar gais gan y darparwr dan sylw.

47. Mae Adran 3(4) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau ynghylch ceisiadau am ddynodiad, creu dynodiadau a'u tynnu yn ôl, gan gynnwys materion i'w hystyried wrth benderfynu a ddylid creu dynodiad neu dynnu un yn ôl, ac effaith tynnu dynodiad yn ôl.

²⁴ Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 62

²⁵ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion* [paragraff 14], 16 Mehefin 2014

48. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gan eu bod yn "cyfarwyddo ynghylch materion technegol a gweinyddol a gallent newid o bryd i'w gilydd."²⁶

Ein barn ni

49. Credwn fod gan y rheoliadau hyn y potensial i arwain at newid arwyddocaol mewn polisi a dylent fod yn destun gweithdrefn sy'n fwy cadarn.

Argymhelliad 4: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan adran 3(4).

Adran 4 - Y cyfnod y mae'r cynllun yn berthnasol iddo

50. Mae Adran 4 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynllun ffioedd a mynediad nodi'r cyfnod y bydd mewn grym. O dan is-adran (2), gall Gweinidogion Cymru ragnodi mewn rheoliadau y cyfnod mwyaf y gall cynllun ffioedd a mynediad fod mewn grym. Ni ddylai unrhyw gyfnod a nodir mewn cynllun ffioedd a mynediad bara'n hwy na'r cyfnod mwyaf hwn.

51. Yn ôl y Memorandwm Esboniadol:

"Ar hyn o bryd, mae rheoliadau a wneir o dan Ddeddf Addysg Uwch 2004 yn darparu mai'r cyfnod hwyaf y caiff cynllun fod mewn grym ynddo yw dwy flynedd. Y bwriad yw y bydd y cyfnod hwyaf y mae cynllun ffioedd a mynediad yn ymwneud ag ef yn hwy na dwy flynedd. Mae cyfyngu ar y cyfnod y mae cynllun yn ymwneud ag ef yn golygu y bydd angen i sefydliadau ddatblygu cynlluniau newydd dros gyfnod o amser os ydynt yn dymuno i'w cyrsiau barhau i gael eu dynodi gan reoliadau cymorth i fyfyrwyr."²⁷

52. Mae hefyd yn nodi y dylid defnyddio'r weithdrefn negyddol ar gyfer y rheoliadau oherwydd "mae'r manylion yn dechnegol a gallent newid o bryd i'w gilydd".²⁸

²⁶ Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 62

²⁷ Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad B – Nodiadau Esboniadol, paragraff 18

²⁸ Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 63

53. Mae'r datganiad bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau'n nodi mai'r bwriad yn yr hirdymor yw y caiff cyfnod mwyaf y cynlluniau ffioedd a mynediad ei ymestyn i hyd at bum mlynedd.²⁹

54. Holwyd y Gweinidog pam nad oedd wedi dewis pennu cyfnod o amser yn y Bil gyda'r pŵer i ddiwygio'r cyfnod hwnnw yn ddiweddarach drwy reoliadau. Yn ei ymateb, dywedodd y Gweinidog:

“... the current maximum duration of a fee plan is prescribed in regulations as being two years. While the new system embeds itself, I have no intention of changing that duration. However, it remains important for Welsh Ministers to have flexibility and a power to prescribe the maximum duration of those fee plans.”³⁰

55. Aeth ymlaen i ddweud:

“That flexibility is necessary here in order to accommodate changes that might be presented to us in the future. We could, for instance, in the future wish to extend things to five years, but I think it is important that while the system embeds, we do not have any sudden shift.”³¹

56. Ychwanegodd un o swyddogion y Gweinidog:

“The future, both within Wales and outside Wales, in relation to HE and the types of providers, the way in which higher education is funded and the flows of students around the system are all very uncertain. If we were to set a maximum fee duration on the face of the Bill, any one of those circumstances could change in such a way that it would have to be brought back before the Assembly. We hope very much that the system will embed in such a way as to give us assurance that everything is working and we could seek then to extend the timescale for fee plans, perhaps to three or five years. However, in the current environment, certainly, I would not advise that.

²⁹ Datganiad y bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau, tudalen 7

³⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 53]*, 16 Mehefin 2014

³¹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 57]*, 16 Mehefin 2014

We do need a level of appreciation for just how volatile or uncertain the HE landscape is at present.”³²

Ein barn ni

57. Er mwyn sicrhau eglurder a sicrwydd i randdeiliaid, ystyrir y dylai'r Gweinidog benderfynu ar y cyfnod mwyaf y dylai cynllun ffioedd a mynediad fod mewn grym a chynnwys y cyfnod hwnnw yn y Bil, er y gellir ei newid drwy offeryn statudol.

Argymhelliad 5: rydym yn argymell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliannau i Adran 4 o'r Bil:

- gan gynnwys ynddo, y cyfnod mwyaf y gall cynllun ffioedd a mynediad fod mewn grym; a
- caniatáu i'r offeryn statudol newid y cyfnod mwyaf, yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Adran 5 – Uchafswm y ffioedd

58. Mae Adran 5 yn ei gwneud yn ofynnol i'r cynlluniau ffioedd a mynediad nodi, neu ddarparu ar gyfer pennu, uchafswm y ffioedd mewn perthynas â phob 'cwrw cymwys'.

59. Mae Adran 5(2)(b) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi mewn rheoliadau ddisgrifiadau o 'gyrsiau cymwys', tra bod Adran 5(3) yn caniatáu i Weinidogion Cymru bennu'r uchafswm ar gyfer y ffioedd a bennir mewn cynllun ffioedd a mynediad. Mae Adran 5(5) yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi dosbarthiadau o bobl mewn rheoliadau a fydd yn 'bersonau cymwys' at ddibenion uchafswm y ffioedd. Mae'r Memorandwm Esboniadol yn nodi:

“Y bwriad yw y bydd “personau cymhwysol” yn cynnwys personau yn y categorïau a ganlyn sy'n preswyllo fel arfer yn y Deyrnas Unedig: personau sydd wedi setlo yn y Deyrnas Unedig, ffoaduriaid ac aelodau o’u teuluoedd a gwladolion yr Undeb Ewropeaidd.”³³

60. Mae'r datganiad bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau'n nodi nad oes bwriad ar hyn o bryd i wneud unrhyw welliant i'r diffiniad o 'bersonau

³² Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion [paragraff 58]*, 16 Mehefin 2014

³³ Y Memorandwm Esboniadol, Atodiad B – Nodiadau Esboniadol, paragraff 22

cymwys' fel y rhagnodwyd eisoes yn *Rheoliadau Cyrsiau a Phersonau Cymwys (Cymru) 2011*.³⁴

61. Mae Adran 5(2) yn darparu bod uchafswm ffioedd at ddibenion y Bil yn golygu uchafswm y ffioedd sy'n daladwy gan 'berson cymwys' i sefydliad mewn cysylltiad â dilyn 'cwrs cymwys'. Mae Adran 5(9) yn galluogi Gweinidogion Cymru i wneud rheoliadau sy'n nodi'r amgylchiadau pan ddylid ystyried ffioedd sy'n daladwy i berson arall mewn cysylltiad â chwrs person cymwys, fel ffioedd sy'n daladwy i'r sefydliad mewn cysylltiad â'r cwrs hwnnw. Bydd y pŵer hwn yn gymwys pan fo sefydliad neu ddarparwr ar ran sefydliad yn darparu cwrs gyda chynllun ffioedd a mynediad cymeradwy mewn grym (sefydliad rheoleiddiedig).

62. Mae'r pwerau i wneud rheoliadau yn Adran 5 yn ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol gan eu bod yn ymdrin â materion technegol a gweinyddol, a gallent gael eu diweddarau neu eu newid o bryd i'w gilydd.³⁵

Ein barn ni

63. Rydym o'r farn bod y rheoliadau a wneir o dan Adrannau 5(2), 5(3) a 5(5) yn fwy na materion technegol a gweinyddol syml ac felly, dylent fod yn destun gweithdrefn graffu fwy cadarn.

Argymhelliad 6: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan Adrannau 5(2), 5(3) a 5(5) yn y lle cyntaf.

64. Wrth ddod i'r penderfyniad hwn, nodwn fod y pŵer cyfatebol yn y ddeddfwriaeth bresennol yn *Neddf Addysg Uwch 2004*, a phennwyd yr uchafsymiau presennol gan *Reoliadau Ffioedd Myfyrwyr (Symiau) (Cymru) 2011*, a wnaed o dan y weithdrefn gadarnhaol gan mai'r rhain oedd y rheoliadau cyntaf i'w gwneud gan ddefnyddio'r pŵer hwnnw.

Adran 6 - Hyrwyddo cyfle cyfartal ac addysg uwch

65. Mae Adran 6(1) yn ei gwneud yn ofynnol i gynllun ffioedd a mynediad sy'n ymwneud â sefydliad gynnwys darpariaeth ynghylch hyrwyddo cyfle cyfartal a hyrwyddo addysg uwch fel y rhagnodwyd gan

³⁴ Datganiad y bwriad polisi ar gyfer y rheoliadau, tudalen 10

³⁵ Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 63-65

Weinidogion Cymru yn y rheoliadau. Mae'r pŵer hwn yn galluogi Gweinidogion Cymru i ragnodi'r wybodaeth am gyfle cyfartal ac addysg uwch at y diben hwn.

66. Mae'r rheoliadau'n ddarostyngedig i'r weithdrefn negyddol oherwyd gall "manyllion y rheoliadau newid o bryd i'w gilydd".³⁶

67. Pan holwyd y Gweinidog, nododd fod y defnydd o'r weithdrefn negyddol yn ymwneud â hyblygrwydd,³⁷ gan ychwanegu:

"... the power itself is of a detailed nature. It is relatively minor in terms of the overall scheme of the fee and access plan approval process. The negative procedure makes sense in that regard."³⁸

68. O ran newid y weithdrefn gadarnhaol, dywedodd y Gweinidog:

"I do not think that that really gives us much more in the way of scope. Over time, we will have evidence becoming available about just what is effective in terms of activities and interventions and good ideas that institutions might come up with that we might want to include in fee and access plans. That underscores the point that I am making about flexibility."³⁹

69. Dywedodd un o swyddogion y Gweinidog:

"... the negative procedure would allow Welsh Ministers to make regulations to react more swiftly to include provisions in the detail of the regulations so that fee plans are working as well as they might in terms of ensuring fair access for students."⁴⁰

70. Yn ei lythyr ar 2 Gorffennaf, nododd y Gweinidog y defnyddiwyd y weithdrefn negyddol yn unol â chanllawiau'r Cwnsler Cyffredinol a bod prif sylwedd y cynllun deddfwriaethol ynghylch cynnwys y cynlluniau

³⁶ Y Memorandwm Esboniadol, Pennod 5, tudalen 66

³⁷ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion* [paragraff 62], 16 Mehefin 2014

³⁸ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion* [paragraff 62], 16 Mehefin 2014

³⁹ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion* [paragraff 64], 16 Mehefin 2014

⁴⁰ Y Pwyllgor Materion Cyfansoddiadol a Deddfwriaethol, *Cofnod y Trafodion* [paragraff 67], 16 Mehefin 2014

ffioedd a mynediad wedi'i nodi yn y Bil (er enghraifft, yn adrannau 6(3) a 6(4)).

Ein barn ni

71. Yn ein hadroddiad ar y Bil Addysg (Cymru), dywedwyd:

“Nid yw'r defnydd o un weithdrefn yn hytrach na'r llall yn cynnig unrhyw hyblygrwydd sylweddol nac yn arbed amser i Lywodraeth Cymru yn ein barn ni; dim ond darparu ar gyfer graddau amrywiol o waith craffu gan y Cynulliad Cenedlaethol y mae'n ei wneud.

“Casgliad 3: Nid yw dadlau bod hyblygrwydd yn sail dros benderfynu a ddylid defnyddio'r weithdrefn negyddol yn hytrach na'r weithdrefn gadarnhaol (neu fel arall) yn berthnasol ac ni ddylid ei defnyddio.”⁴¹

72. Felly, mae'n siomedig clywed dadleuon ynghylch hyblygrwydd yn cael eu defnyddio i gyfiawnhau'r defnydd o'r weithdrefn negyddol yn y Bil Addysg Uwch (Cymru).

73. Er ein bod yn cydnabod bod gwybodaeth yn y Bil, credwn fod y rheoliadau mor ganolog i'r Bil y dylent fod yn ddarostyngedig i'r weithdrefn gadarnhaol.

Argymhelliad 7: rydym yn argymhell y dylai'r Gweinidog gyflwyno gwelliant i'r Bil i gymhwyso'r weithdrefn gadarnhaol ar gyfer y rheoliadau a wneir o dan adran 6(1).

Adran 7 - Cymeradwyo'r cynlluniau ffioedd a mynediad

74. O dan Adran 7, gall CCAUC naill ai gymeradwyo neu wrthod cais i gymeradwyo cynllun ffioedd a mynediad sefydliad.

